# *Whiplash* (Chazelle, 2014)

## Sut mae ffilmiau annibynnol yn cyrraedd y sgrin

**Darllenwch yr erthygl hon o *LA Times* ynglŷn â chreu *Whiplash* ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.**

**Ffynhonnell – LA Times – John Horn *Ionawr 15, 2014,***

# Mynd i'r eithafoedd i gael lle yng Ngŵyl Ffilmiau Sundance

**Mae cyfarwyddwyr sy'n ceisio cael lle i'w ffilmiau yng Ngŵyl Ffilmiau Sundance yn manteisio ar unrhyw gyfle maen nhw'n ei gael i ddangos eu ffilmiau yno. Mewn blwyddyn, aeth *Whiplash* o fod yn ffilm fer i fod yn brif ffilm, er mwyn ceisio cyrraedd y nod.**



Mae traddodiad cryf o gyfarwyddwyr Gŵyl Ffilmiau Sundance yn troi eu ffilmiau byr yn brif ffilmiau, ond nid oes llawer wedi llwyddo i wneud beth roedd Damien Chazelle yn ceisio ei wneud y llynedd. Ar ôl ennill y wobr rheithgor am y ffilm fer orau, roedd yr awdur-gyfarwyddwr yn benderfynol o droi ei ffilm 18 munud yn brif ffilm ar gyfer yr ŵyl eleni.

Roedd amserlen Chazelle yn galed iawn: i fodloni terfynau amser, roedd yn rhaid i Chazelle saethu a golygu'r ffilm gyfan mewn naw wythnos – tua thraean yr amser sydd ei angen i gwblhau ffilm gyffredin. Nid oedd ganddo amser i'w sbario, ac ar un pwynt, aeth Chazelle yn ôl i'w set yn Los Angeles i ddal ati i saethu, oriau ar ôl dioddef cyfergyd (*concussion*) mewn damwain ffordd.

# *Whiplash* (Chazelle, 2014)

## Sut mae ffilmiau annibynnol yn cyrraedd y sgrin

**Mwy o wybodaeth am sut cafodd *Whiplash* ei gwneud o erthygl John Horn yn *LA Times* (cwestiynau ar ddiwedd yr erthygl)**

### Rôl Sundance wrth helpu ffilmiau annibynnol i lwyddo...

**Sundance yw prif ŵyl y genedl ar gyfer ffilmiau sy'n cael eu gwneud y tu allan i system y stiwdios. Mae wedi helpu i lansio gyrfa llawer o gyfarwyddwyr, gan gynnwys Steven Soderbergh a Quentin Tarantino. Gall trefniadau dosbarthu gael eu gwneud am dros $10 miliwn, a gall enillwyr Gwobrau'r Academi, fel *Little Miss Sunshine*, ddechrau yma. Nid yw'n syndod, felly, y bydd gwneuthurwyr ffilm yn mynd i'r eithafoedd i fod yn rhan o'r ŵyl.**

**Y tu mewn i Palace Theatre yng nghanol tref Los Angeles, roedd y cynhyrchiad yn saethu'n hwyr nos Sadwrn, ac ni aeth y criw gartref tan 4 a.m. ddydd Sul. Ar ôl gorffen ffilmio, ac wrth i Chazelle frysio i dorri'r ffilm, roedd golygyddion yn cysgu ar soffas, roedd cymysgwyr sain yn bwyta cinio yn y coridorau, ac roedd peiriannau coffi'n gweithio'n ddi-baid. Roedd bron pawb yn sâl. "Roedd y rheini'n ddyddiau caled," meddai Chazelle. "Nid oedd neb yn cysgu."**

**Ac yna, wythnos cyn Diolchgarwch, canodd ffôn Chazelle, ac roedd cyfarwyddwr rhaglennu Sundance, Trevor Groth, ar y pen arall. Roedd y fersiwn hwn o *Whiplash* wedi cael ei roi at ei gilydd yn gyflym gan Chazelle, ac er nad oedd gan y ffilm sgôr gerddoriaeth eto, a'i bod wedi'i chyflwyno'n hwyr, roedd wedi cael ei derbyn gan Sundance, a bydd yn agor yr ŵyl ddydd Iau.**

### Sundance fel marchnad ar gyfer dosbarthwyr

**Ymhlith y gynulleidfa bydd llwyth o ddosbarthwyr, a fydd, gobeithio, yn lansio rhyfel bidio ar gyfer *Whiplash* a gostiodd $3.3 miliwn. O'i gymharu ag ansawdd crai llawer o'r ffilmiau yn Sundance, mae *Whiplash* yn sefyll allan fel ffilm gyflawn. Mae'r ffordd y cafodd *Whiplash* ei chreu yn dramateiddio byd ehangach ffilmiau annibynnol; stori sy'n dangos pam mae creu momentwm bron mor bwysig â chael stori wych i'w hadrodd, a sut gall y cyfle lleiaf – yn yr achos hwn, buddsoddwr newydd yn ysgrifennu siec fach ar sail teimlad arbennig – droi yn gyfle anferth.**

**"Mae'r ffilm hon wedi cael ei chreu gan bobl anhygoel sydd wedi rhoi'r gorau i bopeth arall yn eu bywydau er mwyn ei chreu," dywedodd Helen Estabrook, un o gynhyrchwyr *Whiplash*.**

**Pe bai cynllun gwreiddiol Chazelle wedi gweithio, byddai *Whiplash* wedi bod mewn theatrau erbyn hyn. Roedd y gwneuthurwr ffilmiau'n chwarae'r drymiau ar gyfer athro band ysgol calongaled yn New Jersey, a chafodd ei ysbrydoli gan y profiad i ysgrifennu sgript am arweinydd jazz hyd yn oed mwy awtocrataidd mewn ysgol gerddoriaeth. "Yr hyn rwy'n ei gofio fwyaf am y band yw'r arswyd," dywedodd Chazelle am ei athro. "Felly arweiniodd at y cymeriad arswydus hwn."**

### O ffilm fer i brif ffilm

**Ceisiodd Estabrook a'r cynhyrchydd gweithredol, Couper Samuelson, godi arian ar gyfer y cynhyrchiad yn gynnar yn 2012. Ni ddenwyd unrhyw fuddsoddwyr gan y stori am fyfyriwr drymiau jazz a'r gwneuthurwr ffilmiau oedd ag un ffilm yn unig i'w enw, sef ffilm gerddorol ddu a gwyn o'r enw *Guy and Madeline on a Park Bench*, a gafodd ganmoliaeth uchel, y dechreuodd Chazelle arni pan oedd yn fyfyriwr israddedig yn Harvard. Nid oedden nhw am adael y project yn gyfan gwbl, felly penderfynodd y cynhyrchwyr gymryd un olygfa**

o'r sgript ffilm a'i throi yn ffilm fer, a fyddai'n dangos bod Chazelle yn gallu cyfarwyddo, yn ogystal â'r ffaith y byddai'r stori'n "datblygu fel ffilm ias a chyffro (*thriller*)," dywedodd Samuelson.

Gyda'r bancer Nicholas Britell, pianydd a chyn-ddisgybl arall o Harvard, yn fodlon ariannu tri diwrnod o ffilmio am $23,000, cyflogodd Chazelle yr actor profiadol J.K. Simmons i chwarae rhan yr actor gormesol Terence Fletcher, a rhoddodd ran y drymiwr Andrew Neyman i Johnny Simmons. Talodd Samuelson am offer drymiau'r ffilm fer ei hun, a defnyddiodd Estabrook ei harian ei hun i wrthseinio ystafell ddosbarth mewn ysgol leol fel stiwdio ymarfer. Enillodd y wobr am y Ffilm Fer Orau yn Sundance 2013, a rhoddwyd bywyd newydd i *Whiplash* – y brif ffilm.

Gyda ffilm fer Chazelle nawr yn rhan ganolog o geisio gwerthu'r syniad, anfonwyd y ffilm allan eto ar ddechrau 2013 i gael ei hariannu, gyda'r nod amhosibl bron o gyrraedd Sundance eleni. "Roeddem ni eisiau cadw'r momentwm i fynd," meddai Estabrook.

## Arian gan ddosbarthwyr

Yr ariannwr annibynnol Bold Films, a gefnogodd y ddrama drosedd llawn canmoliaeth *Drive*, wnaeth y bid mwyaf ar gyfer *Whiplash*, gan gynnig $3.3 miliwn. Rhoddodd Chazelle ran y drymiwr i Miles Teller (*The Spectacular Now*), a saethodd y ffilm ar gamerâu digidol mewn 19 diwrnod yn Los Angeles, ac un diwrnod yn Efrog Newydd. "Nid yw cost yn rhwystr enfawr erbyn hyn," dywedodd Samuelson wrth drafod manteision cynhyrchu digidol, sy'n cael gwared ar amser prosesu a chostau ffilm. "Os oes gennych chi'r ewyllys, yna gallwch chi wneud unrhyw beth."

Gorffennodd Chazelle ffilmio ar 11/10/13, a dangoswyd *Whiplash* i raglenwyr Sundance ar 8/11/13. Diolch yn rhannol i enw da cynhyrchwyr y ffilm (mae Jason Blum, sy'n hen law ar greu ffilmiau annibynnol, yn un o gynhyrchwyr *Whiplash* hefyd), roedd rhaglenwyr Sundance yn fodlon rhoi estyniad ar y dyddiadau cau.

Roedd y ffaith bod y ffilm wedi'i derbyn i Sundance yn golygu bod yn rhaid i Chazelle ruthro i gwblhau *Whiplash* unwaith yn rhagor, ac unwaith eto, gweithiodd y tîm yn hwyr i mewn i foreau cynnar, gan aberthu penwythnosau a gwyliau er mwyn cwblhau'r ffilm i safon uchel iawn. Ond erbyn y pwynt hwnnw, o leiaf roedden nhw'n gwybod bod eu hymdrechion wedi llwyddo. "Yr hyn a oedd yn mynd trwy ein meddyliau ni," meddai Samuelson, "oedd y gallwn ni gysgu pan fyddwn ni farw."

## Cwestiynau

### Annibynnol a phrif ffrwd

- Pa fanylion o ran cynhyrchu'r ffilm hon sy'n awgrymu ei bod yn ffilm annibynnol?
- Beth sy'n gwneud proses gynhyrchu *Whiplash* yn wahanol i broses gynhyrchu ffilm stiwdio (neu brif ffrwd)?

### Camau cynhyrchu allweddol ffilm annibynnol

- Beth oedd y camau allweddol a arweiniodd at gynhyrchu *Whiplash*?
- Pa rannau a chwaraewyd gan y bobl a sicrhaodd bod *Whiplash* yn cael ei chreu?

### Risgiau, manteision ac anfanteision gwneud ffilmiau annibynnol

- Yn eich barn chi, pa risgiau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu ffilm annibynnol?
- Beth, yn eich barn chi, yw prif fanteision ac anfanteision bod yn wneuthurwr ffilmiau annibynnol?